

Shan Morgan

Yr Ysgrifennydd Parhaol

Llywodraeth Cymru

20 Mawrth 2019

Annwyl Shan,

Safonau'r Gymraeg

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi derbyn llythyr gan Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â chyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod fersiwn Gymraeg y cyfrifon cyfunol wedi eu cyhoeddi 12 diwrnod ar ôl y fersiwn Saesneg. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi dweud bod hyn yn mynd yn groes i'r dyletswyddau a osodwyd ar Lywodraeth Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ar hyn o bryd mae, ein Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i gefnogi a hybu'r Gymraeg. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, rydym yn asesu effeithiolrwydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn ogystal â safonau'r Gymraeg sy'n deillio ohono.

Rydym yn awyddus i ddeall y materion a arweiniodd at gyhoeddi'r cyfrifon cyfunol yn hwyr yn Gymraeg, ac unrhyw gam a gymerwyd i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi'r rhesymau pam y digwyddodd hyn.

Yn ychwanegol, hoffem ddeall sut y mae Llywodraeth Cymru yn hybu ac yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn ei threfniadau mewnol.


A wnewch chi ddweud wrthym y canlynol:

- y ddarpariaeth ynghylch hyfforddiant Gymraeg a'r nifer sy'n manteisio arno, yn Llywodraeth Cymru
- sut y mae arfer gorau yn cael ei hyrwyddo yn y sefydliad
- sut y mae gweithredu safonau'r Gymraeg yn cael ei fonitro yn y sefydliad?

Er mwyn llywio ein hymchwiliad, byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb erbyn 17 Ebrill 2019.

Ar wahân, rydym wedi gwahodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i'n cyfarfod rhwng 9.30 ac 11.00am ar 10 Gorffennaf ar gyfer sesiwn graffu flynyddol. Hoffwn eich gwahodd i'r sesiwn hon i drafod sut y mae Llywodraeth Cymru yn bodloni ei rhwymedigaethau cyfreithiol o ran y Gymraeg. A wnewch roi gwybod i mi a ydych ar gael?

Yn gywir,



Bethan Sayed

Cadeirydd y Pwyllgor

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bethan Sayed
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Ebrill 2019

Annwyl Ms Sayed,

Safonau'r Gymraeg

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mawrth 2019 yn holi am wybodaeth ynghylch y materion a arweiniodd at gyhoeddi'r cyfrifon cyfunol yn hwyr yn Gymraeg. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i egluro'r sefyllfa i'r Pwyllgor ac i'w darbwyllo ein bod wedi rhoi camau cadarn yn eu lle i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi wynebu nifer o anawsterau annisgwyl wrth baratoi'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2017-18. O ganlyniad roedd y cyfrifon 6 wythnos yn hwyrach na'r arfer yn cael eu llofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dim ond fersiwn Saesneg y cyfrifon sy'n cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio. Felly, yr arfer cyfredol yw bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu gosod ar wahân gerbron y Cynulliad gyda Llywodraeth Cymru yn gosod y fersiwn Cymraeg a Swyddfa Archwilio Cymru yn gosod y fersiwn Saesneg.

Ar adeg cymeradwyo y fersiwn Saesneg o'r cyfrifon ar 1 Hydref 2018, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r fersiwn Cymraeg o'r cyfrifon, gan gynnwys cyfieithiad o'r dystysgrif archwilio. Fodd bynnag, am ein bod ar frys i sicrhau bod set o gyfrifon i'w gosod gerbron y Cynulliad mewn pryd ar gyfer gwrandawriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Hydref 2018, ni wnaeth swyddogion roi digon o ystyriaeth i amhriodoldeb gosod y cyfrifon ar wahân. O edrych yn ôl, dylai swyddogion Llywodraeth Cymru fod wedi gofyn i swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru i beidio gosod y cyfrifon ar wahân a gofyn am oedi i wrandawriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Rwy'n ymddiheuro'n ddiffuant am hyn.



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y Swyddfa Archwilio sydd yn gosod cyfrifon cyfansawdd Llywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad. Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol byddaf yn awgrymu i Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ail fersiwn Cymraeg o'r cyfrifon i'r Swyddfa Archwilio fel y gall yr Archwilydd eu gosod ar yr un pryd a'r fersiwn Saesneg. Yn y cyfamser (ac ar wahân i'r newid arfaethedig i'r broses) gallaf roi fy sicrwydd absoliwt i'r Pwyllgor y bydd cyfrifon 2018-2019, y fersiynau Cymraeg a Saesneg, yn cael eu gosod ar yr un diwrnod.

Isod, rwy'n darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn eich llythyr.

Y ddarpariaeth o ran hyfforddiant Cymraeg a'r nifer sy'n manteisio arno yn Llywodraeth Cymru:

Yn unol â'n dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu Cymraeg i'w gweithlu. Mae polisi dysgu Cymraeg gan y sefydliad i'r perwyl hwn. Yn unol â'r polisi rydym yn darparu ystod eang o gyfleoedd i'n staff i ddatblygu sgiliau'r Gymraeg yn y gweithle. Mae rhaglen lawn o wersi wythnosol, o lefel Mynediad hyd Uwch, yn cael eu darparu rhwng Medi a Mehefin bob blwyddyn, gyda disgwyliad, yn unol â'r polisi, y bydd staff yn mynychu'r gwersi'n gyson, yn sefyll arholiad ar ddiwedd y tymor o wersi, ac yn defnyddio'u sgiliau yn y gweithle. Mae gwersi gloywi iaith yn cael eu cynnig yn ogystal i'r rheiny sydd am ymestyn eu sgiliau.

Mae'r cynnig estynedig i staff o dan raglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn golygu fod cyfleoedd hefyd i ddysgu dwys, i fynychu cyrsiau preswyl (mynychodd 18 o staff yn ystod 2018-19) ac i fanteisio ar fodylau dysgu ar lein y Ganolfan (mae 130 o staff wedi cofrestru ar gyfer y cwrs dysgu ar lein 10 awr). Rydym ni hefyd, o bryd i'w gilydd, ac mewn ymateb i alw, yn darparu cyrsiau mwy arbenigol. Rhai enghreifftiau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yw cyrsiau blasu iaith, cyrsiau cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith i staff diogelwch a staff derbynfydd, cyrsiau hyder wrth ateb y ffon i staff â sgiliau siarad lefel 3, a chyrsiau sgiliau gwasanaeth cwsmer dwyieithog o safon i staff rheng flaen. Mae cyfleoedd anffurfiol i ymarfer sgiliau hefyd yn cael eu hyrwyddo, megis sesiynau 'coffi a chlonc' amser cinio a rhaglen fentora ffurfiol i baru dysgwyr gyda siaradwyr rhugl i ymarfer eu sgiliau (mae 90 o siaradwyr rhugl wedi cofrestru i fod yn fentoriaid). Cynigir hyfforddiant 1 i 1 gyda thiwtor yn y gweithle i aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn ogystal, ac mae 11 o gydweithwyr, yn cynnwys fi fy hunan, yn manteisio ar y cynnig hwn ar hyn o bryd.

Dyma ystadegau'r gwersi ffurfiol wythnosol a gynhelir ar gyfer blwyddyn academaidd 2017-18

Lefel	Wedi cofrestru	Sefyll yr arholiad
Mynediad	84	28
Sylfaenol	55	22
Canolradd	51	13
Uwch 1+2	52	8
Cyfanswm	242	71



**BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Sut y mae arfer gorau yn cael ei hyrwyddo yn y sefydliad:

Mae mentrau amrywiol a blaengar ar waith i annog staff i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle yn y sefydliad, ac i roi cyfleoedd newydd i staff ddefnyddio'u Cymraeg. Nod y mentrau hyn yw datblygu sgiliau yn y Gymraeg a chynyddu hyder, drwy hyrwyddo teclynnau sydd yn cefnogi gweithio dwyieithog. Dyma rai esiamplau:

- a. canllaw i staff ar ddefnyddio Microsoft Translator (teclyn cyfieithu peirianyddol) ar gyfer cynhyrchu negeseuon dwyieithog mewnol a rhoi bras amcan o negeseuon Cymraeg;
- b. MailTips, sef negeseuon ar broffiliau Microsoft Outlook sydd yn nodi os ydy aelod o staff yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg (mae dros 1,000 o staff â neges ar eu proffil yn nodi "*Rydw i'n siarad Cymraeg*" a "*Rydw i'n siarad rhywfaint o Gymraeg*"), nod y cynllun hwn yw i gynyddu traffig e-byst cyfrwng Cymraeg o fewn y sefydliad;
- c. gwasanaeth gwirio testun y Gwasanaeth Cyfieithu sydd ar gael i'r rheiny sydd yn meddu ar sgiliau i ddrafftio dogfennau neu ohebiaeth yn Gymraeg, ond sydd angen gwirio'r drafft;
- d. teclynnau gwirio sillafu a gramadeg ar lein, megis Cysill a Chysgeir sydd gael ar bob peiriant staff ynghyd â chanllawiau ar eu defnyddio ar y fewnwyd;
- e. ymgyrchoedd cyfathrebu i annog staff i ddatblygu sgiliau, megis hyrwyddo'r gwersi Cymraeg yn y gweithle, cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio sgiliau, a rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol.
- f. ymgyrch i osod polisi Grŵp ar waith i annog staff i ddefnyddio rhagor o Gymraeg ar y cyfrifiadur (er enghraifft, drwy gyflwyno rhyngwyneb Cymraeg Microsoft a'r fewnwyd yn agor yn Gymraeg yn ddiodyn i staff sydd â sgiliau Cymraeg ar lefel 4 a 5 – mae hyn gyfystyr ac oddeutu mil o staff).

Sut mae gweithredu Safonau'r Gymraeg yn cael ei fonitro yn y sefydliad:

Mae tîm bach wedi'u lleoli yn Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog yn gweithio ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru gyda Safonau'r Gymraeg. Mae prosesau mewnol cadarn mewn lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth y sefydliad gyda'r Safonau, gan gynnwys:

- Cynnal gorolwg dros y gwaith o gasglu data er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau Cadw Cofnodion a osodwyd ar Weinidogion Cymru. Mae'r Safonau yma yn cynnwys: cofnodi nifer y cwynion a dderbynnir mewn perthynas â'r Gymraeg (o ran y Safonau ac yn gyffredinol); cadw cofnod o unrhyw gwynion ysgrifenedig a dderbynnir; cofnodi'r camau a gymerwyd i gydymffurfio gyda'r Safonau Lluo Polisi (gan gynnwys cynnal y broses o gytuno bob asesiadau



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

effaith y Gymraeg); cofnodi sgiliau Cymraeg y gweithlu; cofnodi nifer y staff sydd yn mynychu cyrsiau a gynigir yn Gymraeg; a chynnal gorolwg dros y gwaith o gofnodi'r holl asesiadau sgiliau ieithyddol sydd yn ofynnol ar gyfer bob swydd newydd a wag, yn ogystal â'r categorïau o sgiliau ieithyddol a roddir i bob swydd newydd a wag.

- Adroddiad chwarterol i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar weithredu'r Safonau yn ystod y chwarter, gan gynnwys manylion ar gwynion, diweddariad ar ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, a diweddariad ar weithredu'r camau gorfodi a ddaw yn sgil dyfarniadau'r Comisiynydd;
- Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir ar wefan y Llywodraeth ar weithredu'r Safonau, sydd yn cynnwys data ansoddol a meintiol ar weithredu'r gofynion ar draws y sefydliad;
- Adroddiad blynyddol ar gwynion a gyflwynir i Fwrdd Llywodraeth Cymru i graffu yn amlinellu'r cwynion a dderbynnir yn ymwneud â'r Gymraeg, fesul Grŵp;
- Holiadur Rheolaeth Fewnol (Internal Control Questionnaire) flynyddol y sefydliad, sef teclyn monitro sefydliadol i Gyfarwyddwyr i hunan asesu eu rheolaeth o adnoddau a gofynion statudol yn ystod y flwyddyn, sydd yn cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg;
- Rhwydwaith o Gydlynwyr y Gymraeg ar draws y sefydliad sydd yn darparu sicrwydd o gydymffurfiaeth yn eu hardaloedd busnes mewn cyfarfodydd deufisol, ac sydd yn allweddol i rannu negeseuon ac arfer dda o fewn y sefydliad;
- Cyfarfodydd cynnydd cyson chwe misol gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg i drafod cydymffurfiaeth ac ymchwiliadau cyffredinol, unrhyw dueddiadau a materion sydd yn codi, ac argymhellion a ddarperir gan y swyddogion.

Rydyn ni hefyd yn cynorthwyo'r sefydliad i gydymffurfio mewn ffyrdd ymarferol drwy fentrau amrywiol sydd yn cynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu cyson ar ofynion y Safonau, sesiwn hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyrsiau anwytho staff newydd, gweithdai cydymffurfiaeth yn ôl y galw i grwpiau o staff penodol, bwletin cwynion chwarterol gyda "top tips" cydymffurfio, cyfres o ganllawiau cyflym ar y fewnrwyd ar sut i gydymffurfio (er enghraifft wrth drefnu cynhadledd, wrth gofnodi dewis iaith cwsmeriaid, ac wrth osod neges allan o'r swyddfa), pecyn cymorth i reolwyr llinell ar drafod y Safonau mewn cyfarfodydd cangen ac isadran, a phrosesau sefydliadol cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth (megis addasu templedi caffael, templedi recriwtio a phenodiadau cyhoeddus, llythyron grantiau, a thempledi adnoddau dynol) i'w gwneud hi'n haws i staff i ymgyrraedd â'r gofynion. Mae'r gwaith yma yn cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru, sef y Prif Gwnsler Deddfwriaethol yn ogystal a'i reolwr, sef Cyfarwyddwr Cyffredinol sydd hefyd yn Bencampwr y Gymraeg yn y sefydliad.

Rwy'n cadarnhau y byddaf yn gallu mynychu sesiwn graffu'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf i drafod ymhellach sut y mae'r Llywodraeth yn bodloni ei rhwymedigaethau cyfreithiol o ran y Gymraeg.



BUDDSODDWRYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Yn gywir, Shan Morgan

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289

PS.PermanentSecretary@llyw.cymru

Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>